



Cardiau'r
Pasg ar
gael yn
Siop Ty
Tawe
Ffoniwch
456856

WILIA

RHIF 434 EBRILL 2021
AM DDIM

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

PRIF SWYDDOG NEWYDD I'R FENTER IAITH



Yn dilyn cyfnod o newid, cafodd Tomos Jones, o Abertawe, ei benodi'n brif Swyddog Menter Iaith Abertawe.

Cafodd Tomos ei fagu yn Abertawe, a mynychu ysgolion Cymraeg Bryn-y-môr a Gwyr. Aeth yn ei flawn I astudio ym

mhrifysgol Caerfaddon. Tan ei swydd Newydd roedd yn athro cemeg yn Ysgol Gyfun Gwyr.

Cafodd Wilia gyfle i'w holi.

Sut brofiad oedd cael dy fagu yn Abertawe? Profiad gwych oedd cael fy magu yn Abertawe. Mae'r cyfuniad o Benrhyn Gŵyr gyda'i draethau a'i natur a'r hyn mae dinas yn gallu cynnig yn gwneud Abertawe yn lle arbennig i fyw. **Yr unig anfantais yw'r tywydd!**

Sut addysg gest ti yn Abertawe?

Roeddwn yn ffodus iawn i fynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr, ac wedyn Ysgol Gyfun Gŵyr i dderbyn fy addysg. Mae gen i atgofion da o'r ddwy ysgol fel disgybl, a dychwelais i weithio yng Ngŵyr ar ôl astudio am fy ngradd ym Mhrifysgol Caerfaddon.

Sut le yw Abertawe i bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg? Teimlaf

ei fod yn amser cyffroUs i siaradwyr Cymraeg ifanc yn Abertawe, gyda'r cyfleoedd i fwynhau diwylliant Cymreig yn cynyddu. Gyda gwaith ardderchog sefydliadau megis Swansea Music Hub, rydym wedi gweld nifer fawr o fandiau Cymreig yn chwarae ar draws Abertawe mewn lleoliadau megis Neuadd y Brangwyn, > Parhad ar dudalen 2 >



CEFNOGAETH I DŶ TAWE

Mae cefnogwyr wedi addo tua £5000 y flwyddyn i Dŷ Tawe, yn dilyn ymgyrch i roi'r Ganolfan Gymraeg ar seiliau cadarn am y 30 mlynedd nesaf. Y nod yw codi £10,000 y flwyddyn.

Yn ystod misoedd cyntaf y clo yn sgil Covid, ym mis Mawrth y llynedd, roedd pethau'n edrych yn bur dywyll ar y Ganolfan.

Roedd Cymraeg i Oedolion wedi tynnu'n ôl eu holl ddsbarthiadau, ac roedden nhw hefyd wedi symud o'r swyddfa oedd ganddyn nhw yn yr adeilad. Collodd Tŷ Tawe £9,000 yn sgil hyn. Bu raid i Siop Tŷ Tawe gau am gyfanswm o 5 mis yn ystod y flwyddyn, ac wynebodd ostyngiad mawr yn ei hincwm. Oherwydd hyn, oni bai y

byddai cefnogaeth yn dod yn sydyn, byddai Tŷ Tawe wedi bod mewn perygl.

Diolch i'r cefnogwyr, mae'r perygl hwnnw heibio. Cymorth mawr arall oedd y cyllid diogelu busnes a gafodd Tŷ Tawe trwy'r Cyngor Lleol, yn arian y Llywodraeth a ddsbarthwyd i fusnesau lleol.

Cafodd y siop hefyd gefnogaeth gref gan ysgolion yr ardal, ac yn ystod y mis cyn y Nadolig, cyn iddi orfod cau'n ddirybudd, derbyniwyd £10,000 dros y cownter.

Mae pob argoel y bydd Siop Tŷ Tawe'n gallu agor yn llawn erbyn canol Ebrill. Bydd y siop ar agor o 10 tan 5 o ddydd Mawrth i ddydd

Gwener, ac o 10 tan 2 ar ddydd Sadwrn.

Mae Capel Gomer wedi dechrau ailddefnyddio'r Ganolfan ar y Sul, ac wedi cyfrannu set deledu fawr a fydd yn ddefnyddiol pan gaiff dosbarthiadau a gweithgareddau eraill ailgychwyn.

Ar hyn o bryd mae'r Caffi Bore Sadwrn ar gau, nes y bydd y Llywodraeth yn caniatáu agor unwaith eto.

SIOP TY TAWE
Ffoniwch i gael cardiau,
llyfrau, anrhegion:
456856
Dydd Mercher, lau a Gwener
nes y byddwn yn agor

TOMOS JONES

< PARHAD O'R DUDALEN FLAEN

Sin City a'r Bunkhouse dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn, wrth gwrs, yn ogystal â'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Nhŷ Tawe gyda nosweithiau fel *Tyrfe Tawe a'r Gŵyl Croeso*.

Beth yw dy ddi-ddordebau yn dy amser hamdden? Fy niddordebau mawr yw gwyllo pêl-droed, yn enwedig timoedd Cymru a'r Elyrch, a cherddoriaeth. Rwyf yn gweld eisiau

gallu ymweld â Stadiwm y Liberty yn fawr iawn ar hyn o bryd!

Oes unrhyw arwyr 'da ti? Carfan gyfan Euro 2016 Cymru. Roedd cefnogi'r tîm trwy'r ymgyrch yn brofiad bythgofiadwy, er fy mod i'n parhau i feddwl am beth fyddai wedi digwydd os oedd Aaron Ramsey a Ben Davies wedi bod ar gael ar gyfer y gêm yn erbyn Portiwgal!

Beth yw dy hoff ffilm / llyfr /

Cofiwch Dryweryn - Cofiwch Kenya Wythnos Cymorth Cristnogol 10-16 Mai 2021

Mae i godi argae er mwyn cronni dŵr gysylltiadau poenus i ni yma yng Nghymru. Nid mater o hanes ydyw chwaith; mae'n gallu brifo o hyd. Mae'r dywediad 'Cofiwch Dryweryn' yn parhau i gorddi teimladau ne-gyddol ynom.

Pam? Am inni wybod fod gweithred anghyfiawn wedi ei chyflawni yn erbyn trigolion Cwm Celyn. Am fod corfforaeth

fawr wedi sathru ar hawliau, dyheadau a theimladau pentrefwyr. Am fod dymuniad cenedl gyfan wedi ei hanwybyddu.

Mewn rhannau eraill o'r byd, fodd bynnag, mae codi argae er mwyn cronni dŵr yn weithred o gyfiawnder. A'r weithred gyfiawn honno fydd stori ganolog Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Yn Kenya, mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar y tywydd - fel y mae trwy'r byd, wrth gwrs. Ond mewn gwledydd tlawd, mae'r effeithiau yn llawer gwaeth. Arferai'r tywydd fod yn rhagweladwy, oedd yn caniatáu i'r ffemwr hau a medi yn dilyn patrwm cenedlaethau. Bellach, mae patrwm y tywydd wedi newid yn fawr. Ceir sychder difrifol ac yna gyfnod o lawogudd trwm sy'n arwain at lifogydd.

Mae ffermio mewn sefyllfa o'r fath bron yn amhosibl ac mae pobl yn marw o newyn o'r

herwydd.

Trwy bartner lleol mae Cymorth Cristnogol yn helpu i godi argaeau. Golyga hyn fod posibl cronni dŵr y gellid ei ddefnyddio ar adegau sych. Sef yr union reswm pam y codwyd argaeau yng Nghymru wrth gwrs. Pam felly fod codi argae mewn pentref yn Kenya yn wahanol?

Codi argae gyda chaniatâd y gymuned leol y



mae partner Cymorth Cristnogol. Gwneud hynny gyda'r gymuned leol, wrth i'r pentrefwyr eu hunain helpu yn y gwaith. Ac efallai yn bwysicach na dim, codi'r argae er budd y gymuned leol a wneir. Y nhw sydd berchen yr argae; y nhw sydd berchen y dŵr. Oherwydd hyn, gweithred gyfiawn yw codi argae yn Kenya.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10-16 Mai) bydd eglwysi ar hyd a lled Cymru yn brysyr yn codi arian tuag at brosiectau tebyg. Prosiectau fydd yn rhoi help llaw i bobl dlotâ'r byd wrth iddynt ymdrechu i godi eu hunain allan o dlodi.

Beth am ymuno yn y gweithgarwch?

Cysylltwch â'ch eglwys leol i weld be sy'n digwydd yno neu ewch draw i wefan Cymorth Cristnogol am fwy o wybodaeth.

<https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week>

cerddoriaeth, a pham? Anodd iawn i ddewis! O ran yr hyn rwyf wedi mwynhau dros y flwyddyn ddiwethaf, os oedd rhaid i mi ddewis un record fel fy ffeifryn o 2020, byddaf yn dewis *Mirores* gan *Ani Glass*. Roedd y band o Abertawe *Bandicoot* hefyd wedi rhyddhau dau gasgliad o ganeuon gwych trwy *Bandcamp*, yn ogystal â sengl gyffrous ar y label *Recordiau Libertino*. Rwyf wedi bod yn darllen llawer dros y cyfnod clo, a dau lyfr rwyf wedi gorffen yn ddiweddar yw *laith y Nefoedd* gan Llwyd Owen a hunangofiant y bardd *John Cooper Clarke*.

Sut wyt ti wedi ymdopi yn y cyfnod Covid? Gyda llyfrau a cherddoriaeth! Roedd cael pecyn trwy'r post gyda'r recordiau mwyaf diweddar ar ddydd Gwener yn rhywbeth i edrych ymlaen ato bob wythnos. Rwyf wedi gweld eisiau cwrrdd lan gyda ffrindiau a cherddoriaeth fyw, ond gobeithio gallwn ddod at ein gilydd mewn gŵyl cyn bo hir!

Beth yw dy weledigaeth am waith y Fenter laith am y 5 mlynedd nesa? Edrychaf ymlaen yn fawr at allu cynnal digwyddiadau yn neuadd Tŷ Tawe unwaith eto. Unwaith mae'n ddiogel i wneud, mae gen i restr hir o artistiaid hoffwn weld yn chwarae yn y ganolfan! Rwy'n ffodus iawn i gael tîm gwych yn y Fenter, a byddwn yn parhau i gyd-weithio i gynnal amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i blant, pobl ifanc, ac oedolion yn yr ardal.



PAPURAU BRO

Yn mis Mawrth 2021 lanswyd gwefan newydd ar gyfer yr holl Bapurau Bro Cymraeg www.papuraubro.cymru. Bwriad y wefan yw creu un man canolog lle gall ddarllenwyr hen a newydd ddarganfod gwybodaeth am yr holl Bapurau Bro Cymraeg.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswilt a mwy ar gyfer pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w cymunedau. Gallwch ddefnyddio map interactiv y wefan i ddarganfod pa papur bro

UN MAN CANOLOG AR GYFER HOLL BAPURAU BRO CYMRAEG

sydd ym mha ardal.

Dywed Dylan Lewis, cadeirydd Papur Bro Clonc (ardal Llanbedr Pont Steffan): *"Ry'n ni wedi bod angen un o rhain ers blynyddoedd. Mae'r Papurau Bro yn gwneud gwaith anhygoel ym mhob ardal drwy Gymru, ond mae hefyd yn braf iawn cael y teimlad ein bod yn rhan o rywbeth mwy."*

Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr y Papurau Bro rannu adnoddau a chyfathrebu. Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru [MIC]: *"Ry'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hwn yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen gyda'i gilydd a datblygu mewn*

cyfnod lle mae presenoldeb ddigidol mor bwysig."

Mae perthynas adeiladol wedi ei greu rhwng Mentrau Iaith Cymru a Bro360, cynllun sy'n darparu gwefannau bro i gymunedau. Trefnwyd hyfforddiant ar y cyd gan MIC a Bro360 ar gyfer gwirfoddolwyr y Papurau Bro yn ystod mis Mawrth 2021.

Dywed Lowri Jones ar ran Bro360: *"Ry'n ni'n falch bod Bro360 wedi gallu helpu papurau bro i barhau i gyhoeddi yn ystod cyfnod heriol Covid. Edrychwn ymlaen at helpu'r papurau i ddatblygu ymhellach trwy gynnig arbenigedd cwmni Golwg ym maes newyddiaduraeth anrbynnol i gynnal tair sesiwn hyfforddiant i gyfranogwyr y papurau bro dros yr wythnosau nesa."*



Bydd y gyfres o bodlediadau **'Baby steps into Welsh'** gan Mudiad Meithrin yn cael ei lansio ddydd Mercher 31st Mawrth pan fydd cyflwynydd Good Morning Britain Sean Fletcher a'i wraig Luned Tonderai yn trafod yn agored eu profiadau yn y bennod gyntaf. Cyfres o bodlediadau newydd a chyffrous gan Mudiad Meithrin yw **'Baby Steps Into Welsh'**. Cyflwynydd y podlediad yw Nia Parry, y cyflwynydd teledu Cymraeg. Mae'r podlediad yn gyfle i rieni rannu eu profiadau go iawn ac unrhyw bryderon ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin,

"Ein prif nod fel Mudiad yw galluogi holl blant Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae gennym sawl dull o gyflawni'r nod hwn, ond dibynnwn ar rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, gan gychwyn gyda'r Cylch Meithrin."

Ymhob un o'r pump penodau, mae Nia Parry yn cwrdd â rhieni sy'n rhannu ac yn trafod eu siwrneiau personol. Ym mhennod 1, a fydd yn cael ei rhyddhau ar 31ain o Fawrth, mae cyflwynydd Good Morning Britain, Sean Fletcher, a'i wraig Luned Tonderai, yn rhannu eu

Lansio cyfres o Bodlediadau Saesneg i Draffod Profiadau Rhieni cymysg eu hiaith o Addysg Cyfrwng Cymraeg

profiadau diddorol o addysg cyfrwng Cymraeg yn Llundain:

"Nid oeddwn i'n siarad Cymraeg ar y pryd, er bod Luned yn rhugl o'r crud. Fel person o hil gymysg, mi wn i pa mor bwysig yw hunaniaeth, a gan fod ein plant ni'n hanner Cymry, roedd rhoi'r Gymraeg yn rhodd iddyn nhw yn benderfyniad hawdd. Teimlais ei bod hi'n bwysig dys-

gu Cymraeg ochr yn ochr â nhw, fel y gallwn i helpu gyda gwaith ysgol, ac i sicrhau nad oeddwn yn cael fy ngadael allan o bethau! Roedd y Cylch Meithrin yn gam cyntaf allweddol, ac roedd yr ysgol Gymraeg yn Llundain yn anhygoel. Rydw i mor falch ac mor hapus ein bod wedi gwneud hyn i'n teulu." Sean Fletcher.

Magwyd y digrifwr Mike Bubbins a'i wraig Kelly, sy'n ddirprwy brifathrawes, yn ne Cymru. Maen nhw'n byw yng Nghaerdydd gyda'u ddau blentyn ifanc. Nid yw'r un o'r ddau yn siarad Cymraeg. Roedd Kelly yn angerddol am addysg Gymraeg: *"Tra'n astudio yng Ngholeg Safon Uwch, teimlais gymaint o*

genfigen at y myfyrwyr eraill oedd yn medru siarad Cymraeg. Penderfynais pe bawn i'n cael plant, y byddwn i eisiau iddyn nhw gael yr addysg Gymraeg na chefais i mohoni. Mae'n agor drysau i gymaint mwy o gyfleoedd amrywiol."

Fodd bynnag, nid oedd Mike yr un mor bendant:

"Gan ein bod yn aelwyd ddi-Gymraeg roeddwn i'n poeni'n fawr y byddai'r plant yn dioddef, oherwydd doedden ni ddim yn gallu eu helpu. Ond mae'r mab newydd ymddangos ar Mastermind Cymru i blant, sy'n profi na fu hyn yn rhwystr! Mae'n gas gen i gyfaddef bod Kelly'n iawn, ond eu hanfon i Gylch ac ysgol Gymraeg yw'r penderfyniad gorau rydyn ni erioed wedi'i wneud!"

Yn ogystal â chwrdd â rhieni sydd eisoes wedi gwneud y penderfyniad, mae **'Baby Steps Into Welsh'** yn rhannu straeon rhieni sy'n gwneud y penderfyniad pwysig ar hyn o bryd.

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu cyfweiliadau, cysylltwch â Heulwen Davies: post@llais.cymru / [<mailto:post@llais.cymru>](mailto:post@llais.cymru) / 07817591930. Neu: Iola Jones, Arddun Rhiannon Arwel Pennaeth Tim Cyfathrebu a Phartneriaethau Swyddog Cyfathrebu E-bost: iola@meithrin.cymru E-bost: arddun@meithrin.cymru Ffôn: 07841 452 607



Cylch trafod llyfrau Tŷ Tawe

Helynt gan Rebecca Roberts – Sgôr: 9 a 10 marc gan bawb



“Stori ragorol. Ar yr olwg gyntaf roeddwn i’n meddwl mai stori blentynnaidd oedd hi, er fy mod i’n gwybod mai stori i rai yn eu harddegau oedd hi. Ond mae’n addas i lawer o bobl – mae sôn am bob math o

broblemau ac mae’r ymdriniaeth yn aeddfed iawn”

“Stori hawdd ei darllen, creadigol a heriol.”

“Wedi fy siomi o’r ochr orau. Cydiodd y stori ynof i. Hiwmor direidus ond dyfnder hefyd.”

“Do’n i ddim yn siŵr tua ¾ ffordd trwodd, efallai fod rhai o’r digwyddiadau’n rhy ddisgwyliedig.”

“Roeddwn i’n cytuno’n llawn â’r prif gymeriad – yn llawn angst yr arddgau.”

“Wedi mwynhau. Yn hoffi’r ffaith bod y nofel yn darlunio teuluoedd gwahanol i’r arfer. Fel rhywun sy’n gyfarwydd â’r

Rhyl, roedd hi’n braf nad oedd hi wedi newid enwau’r strydoedd. Roedd cael teulu cymysg ei iaith yn ddiddorol iawn hefyd; wedi’r cyfan mae hyn yn adlewyrchu cefndir llawer o blant yng Nghymru.”

“Llawer o ddyfnder yn y nofel. Wnes i ddim rhagweld y diwedd, a’r effaith ar y plant.”

“Ysgubol! Roedd y stori’n rhedeg yn gyflym a’r cymeriadau’n wych. Stori ddifyr gyda llawer o sylwedd.”

“Yn mynd o dan groen merch â phroblemau gwahanol i rai’r dosbarth canol.”

“Efallai fod y diwedd yn rhy dwt ar y diwedd. Yr uchafbwynt o ran yr

ysgrifennu oedd yr ymosodiad ar ei mam. Mae gan yr awdur ddawn i greu sefyllfaoedd mor realistig.”

“Methais roi’r stori i lawr. Braf darllen stori o safbwynt merch 15 oed. Llawer o linyddau yma ar yr un pryd – trais emosïynol a chorfforol. Awdur dawnus: mae’n rhoi awgrymiadau hwnt ac yma ac yn eu datblygu wrth fynd ymlaen.”

“Ro’n i eisiau gwybod beth oedd yn digwydd. Llawer o gyffyrddiadau doniol yma. Disgrifiadau cynnil; heb fod yn gorddisgrifio fel rhai awduron.

Prin yw’r llyfrau Cymraeg sy’n ymwneud ag anabledd.”

“Cymeriadau â sawl ochr iddyn nhw yma – neb yn ddu a gwyn.”

“Tybed a oedd gormod yn digwydd yn yr 20 tudalen olaf?”

Byddwn yn cael cyfarfod ar ap cyfarfodydd Zoom am 7:30 ar ail nos Lun y mis dros y misoedd nesaf. Cysylltwch ag elin.angharad.meek@gmail.com os ydych chi eisiau ymuno â ni.

Llyfrau’r mis nesaf fydd:

12 Ebrill *Filó* – Siân Melangell Dafydd, Gomer, £8.99



Atgofion Dr Bruce Lervy, yn seiliedig ar *Helynt*, Rebecca Roberts, sydd wedi’i seilio yn y Rhyl.

Y Rhyl

Ar ôl gael fy ngradd fel meddyg treuliais fy ail swydd am chwe mis yn Ysbyty Alexandra Brenhinol y Rhyl. I oedd yr unig feddyg oedd yn dod yn wreiddiol o Brydain. Roedd meddygon o India, Pakistan, Bangladesh, Twrci ac Awstralia.

Parhad ar dudalen 5

Wilia

Yng ngofal Heini Gruffudd

Diolch i’n cyfranwyr

Golygydd y mis nesaf: Elin Meek

Anfonwch eich eitemau i’r cyfeiriad e-bost arferol:

wilia@hotmail.co.uk

Deunydd i law erbyn:

CYMRAG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Y RHYL - parhad

Roedd pob un ohonon ni'n cael un diwrnod segur yn ystod penwythnos.

Roedd traddodiad taw'r meddyg a oedd â dydd segur oedd yn coginio'r pryd nos,

Cyri Iâr bob tro. Yn yr wythnos gyntaf roedd rhaid un o'r meddygon arall goginio yn fy lle i. Cwynais i fod y drefn yn annheg oedd y drefn a mynnais i fod yn gyfrifol am goginio'r wythnos ganlynol.

Roedd hi'n amlwg

bod y meddygon eraill yn anhapus gyda fy nghynnig.

Ddywedon nhw dim byd, ond roedd rhai ohonon nhw'n edrych yn welw. Fin nos **daeth fy rheolwr hyn i siarad â fi.** (Dr Chacrobarti, a oedd yn cael ei adnabod fel



Chuk gan bawb). Siaradodd e yn betrusgar, "Bruce ,, dyna'r broblem, dydych chi Brydeinwyr ddim yn ddigon glân pan fyddwch chi'n paratoi bwyd". A dweud y gwir, roedd glendid perffaith

gyda'r meddygon tramor. Pan oeddwn nhw'n paratoi'r iâr, roedden nhw'n symud popeth heblaw am y croen a'r cig. Wedyn roedd yr iâr yn cael ei golchi

mewn dŵr glân. Nesaf roedden nhw'n torri'r cig o'r esgryn a phopeth a'u golchi mewn dŵr ffres ac wedyn torri'r cig yn sgwariau bach cyn golchi unwaith eto. Roedd yr un arferion golchi gyda'r

llyisiau a'r offer coginio. Treuliais i amser yr wythnos ganlynol yn edrych ar bob un yn gwneud y gwaith coginio. Cytunodd pawb fy mod i'n cael caniatâd i goginio'r wythnos ganlynol gyda Chuk yn arolygu fy ngwaith i. Roedd pawb yn hapus a bues i'n coginio unwaith yr wythnos yn ystod gweddill fy ngwaith yn Rhyl. Dysgais i lawer o ryseitiau bwyd o bedwar ban y byd.

Cyffuriau

Pan oeddwn i'n gweithio yn y Rhyl des i'n cyfarwydd â'r

Gymraeg gydag acen Lerpwl. Hefyd roeddwn i'n gyfarwydd â phobl oedd yn gaeth i gyffuriau; nifer yn fwy nag yng Nghaerdydd neu yn Abertawe. Gastroenteritis (Anhwyllder y stumog)

Yn wreiddiol roedd *Royal Alexandra* wedi ei adeiladu fel ysbyty i blant. O ganlyniad i hyn roedd drysau cul a bach i adlewyrchu maint y cleifion. Roedd anhawster symud oedolion a stretsier neu gadair olwyn o un lle i'r llall. Un tro, cyrhaeddodd bws yr ysbyty gydag aelodau clwb teithio. Roedden nhw wedi cael pryd o fwyd gyda'i gilydd **mewn gwesty ar eu ffordd.** Mae'n rhaid bod pawb wedi bwyta rhywbeth gwenwynig. O fewn munudau i'w gilydd, roedd 32 o hen bobl yn cyfogi ac yn dioddef o ddolur rhydd. Llewogodd rhai ohonyn nhw. Gwellodd y sefyllfa ar ôl rhoi pigiad lliniarol i bawb.

Carwriaeth

Pan oeddwn i'n gweithio yn y Rhyl, roedd chwe mis cyn fy mhriodas a Jean. Roedd hi'n gweithio fel nyrs yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Roedd amser segur yn brin gyda'r ddau **ohonon ni, fel soniais i uchod, ro'n i'n cael hanner dydd yn ystod yr wythnos ac un penwythnos y mis.** Roedd y penwythnos yn dechrau ar ôl gwneud archwiliad ward bore dydd Sadwrn ac roedd y penwythnos yn dod i ben adeg archwiliad ward fin nos Sul. Des i adnabod pob troad yn y ffordd rhwng y Rhyl ac Abertawe lle roeddwn i a Jean yn cwrdd yn nhŷ ei rhieni hi.

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Diolch o galon i bawb sydd eisoes wedi **ymuno â Chlwb Cefnogwyr Tŷ Tawe, a** thrwy hynny wneud cyfraniad pwysig i ddyfodol canolfan Gymraeg Abertawe.

Mae'r byd yn parhau yn le ansicr ar hyn o bryd, ond rydym yn ffyddiog y bydd modd **eich croesawu yn ôl i Dŷ Tawe yn fuan.**

Cafodd y ganolfan dros 33 o flynyddoedd o lwyddiant yn barod a gallwn edrych ymlaen at y 30 mlynedd nesaf o fwynhad, bwrlwm a chwmnïaeth yn ein **adeilad eiconig, sy'n rhan annatod o fywyd Cymraeg dinas Abertawe a'r cyffiniau.**

I sicrhau ffyniant Tŷ Tawe gofynnwn yn garedig i chi ystyried cyfrannu tuag at yr achos. Bydd hyn yn ein galluogi i wella ac

addasu'r adeilad a'i adnoddau a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o siaradwyr Cymraeg yn Abertawe.

Mae manylion sut gallwch gyfrannu ar ffurflen yn y papur hwn. Os hoffech fersiwn electroneg, plis e-bostiwch calonlan13@yahoo.com Byddwch yn **derbyn tocyn rhodd i'w wario yn Siop Tŷ Tawe fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.** Gyda'n gilydd dros ddyfodol y Gymraeg yn Abertawe.

Cadwch yn ddiogel a diolch o galon am eich cefnogaeth.

Catrin a Rhian ar ran pwyllgor

Cymdeithas Tŷ Tawe

Cymdeithas Tŷ Tawe: Rhif Elusen 514082

Cymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch

GOHIRIO ETO!

Roedd y Gymdeithas yn gobeithio ail ddechrau yn y Gwanwyn a chyhoeddi'r manylion am 2021 yn y rhifyn yma o "Wilia."

Mae'n amlwg i bawb erbyn hyn nad yw'r cynlluniau yma yn ymarferol yn wyneb yr anhawsterau yn sgil Cofid 19. Felly, y nod newydd yw ail gychwyn yn nhymor yr **Hydref gan gyhoeddi'r manylion ar y cyfle cyntaf.** Gobeithiwn drefnu'r daith estynedig i Gaernarfon a Sir Fôn rywbryd yn 2022.

COFIO DAI DAVIES , CYN-GOLWR ABERTAWA A CHYMRU

Ar 10ed Chwefror 2021 , yn 72 oed, bu farw Dai Davies, cyn-golwr Abertawe a Chymru. Gellir darllen ei hunangofiant yn ei lyfr “ Hanner Cystal â ‘Nhad .” Talwyd teyrngedau niferus iddo gan gynnwys englynion gan ddau o'n beirdd lleol a ddarledwyd ar “ Byd y Bêl “ ar y bore Sadwrn oer a ddilynodd ei farwolaeth.

Safai haearn gadarn geidwad- heb ofn
Yn y bwch dros henwlad:
Soled ymhob arbediad
A Dai llawn cystal a'i dad.

Huw Dylan

Daeth oerfel, Dai ni welwn- Ing y bwch
Rhwyng ei byst a deimlwn;
Ond os , ryw dydd, dewiswn
Dîm i'r llun, Rhif Un fydd hwn.
Robot Powell



Te Prynhawn Dydd Gŵyl Dewi
Mawrth y 1af am 4 o'r gloch

Dech i ymwneud gyda ni ar Zoom

Cyfle i gyflwyno Hazel Thomas yn ôl am ei phrofiad 'O Drefach i'r Dorchester'

Beth am greu teisec yn defnyddio rhydd o lyfr Coro'r Corowau Cognio?

Cyfle i gyflwyno sbectol actolau'r rhanbarth - ja!



PROSIECT CYFFROUS YN NHREFORYS

Mae Eglwys y Tabernacl ynghyd â Dinas a Sir Abertawe wedi derbyn grant gan CADW i gofnodi ar ffilm hanes y Tabernacl a'r gymuned o gwmpas y capel. Yn 2022 fe fydd y Tabernacl yn 150 oed. Mae rheolwyr y prosiect dwyieithog yn awyddus iawn i gael cefnogaeth gan ddarllenwyr “ Wilia” a'u ffrindiau ac wedi paratoi'r apêl hon :

Mae'r Tabernacl, Treforys yng nghanol prosiect ffilm newydd unigryw sy'n cofnodi bywyd a chyfnod y capel a'r cymunedau sydd wedi bod yn rhan o'r daith honno.

Os ydych chi wedi bod yn rhan o'r gynulleidfa, grwpiau ieuencid, corau, wedi priodi yno ayyb... hoffem glywed gennych! Ar y cam hwn rydym yn chwilio am luniau a deunydd rydych yn hapus i'w rhannu a'r straeon sy'n cyd-fynd â nhw. I gysylltu â ni,neu am fwy o fanylion, e-bostiwch : FusionTabernacleProject@gmail.com.

MERCHED Y WAWR YN DATHLU GWYL DEWI

Dyma ychydig o luniau o gyfarfod zoom Merched y Wawr Abertawe. Diolch i bawb ymunodd yn y dathlu a diolch yn arbennig i'r rhai fu'n cwcan ac a wisgodd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Mae profiadau Hazel mor arbennig ac mor wahanol i brofiad y rhan fwyaf ohonom. Diolch yn fawr iddi hi am fod mor barod i rannu.

Os oes lluniau gyda chi o ddoe neu lun o ffenest neu gacen yr hoffech chi fi

rannu, danfonwch nhw ata i. Mae nifer o luniau ar wefan y mudiad yn barod. Ein noson rhanbarthol nesaf fydd “Adam yn yr ardd” ar y 29 ain o Fawrth pan fyddwn yn cyd- zooman gyda rhanbarth y de ddwyrain. Rhennir y cyswllt zoom yn nes at y dyddiad. Cofiwch hefyd fod nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol ymlaen. Mae'n hawdd iawn ymuno drwy glicio ar y cyswllt Tocyn Cymru. Mawrth y 4ydd – Diwrnod y llyfr gyda Bethan Gwanas
Mawrth yr 8 fed – Diwrnod Rhyngwladol y Merched

MIKE HEDGES YN CROESAWU ARIAN I FERCHED Y WAWR

Rwy'n falch iawn fod cyfanswm o £1,140 o arian y Loteri Genedlaethol wedi'i ddyfarnu yn Nwyrain Abertawe ym mis Tachwedd. Bydd yr arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gwneud cyfraniad hanfodol at gefnogi cymunedau yn eich etholaeth yn ystod y cyfnod

heriol hwn.

Derbyniodd Merched y Wawr Treboeth y grant i gynnig cyfle i'w haelodau i barhau i fod yn egniol yn ystod y cyfngiadau symud, drwy gynnal gweithdai cwilt a chyfarfodydd sydd â phellter cymdeithasol.

HAWL I HOLI

Mae'r gyfres radio Hawl i Holi yn ei hôl!

Er nad oes cyfle i deithio i gymunedau Cymru ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Hawl i Holi yn ei hôl. Dewi Llwyd sy'n cyflwyno, herio a chadw trefn ar 4 panelydd. Gan ddarlledu yn fisol ar Radio Cymru rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyfranwyr o bob rhan o'r wlad. Os oes gennych chi gwestiwn neu bwnc yr ydych chi am i'n panelwyr ymateb iddo byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Bydd y rhaglenni nesaf ar Fawrth 4ydd, Ebrill 1af ac Ebrill 29ain am 6 yr hwyr.

I gysylltu mae modd ffonio 03703 500700 yn ystod oriau gwaith neu e bostio hawliholi@bbc.co.uk

Cofion gorau,
Sharon

Sharon Laban

**Cydylydd
Cynhyrchu / Production Co-ordinator**

Uned Wleidyddol / Political Unit

☎ **07976 902676**

Skype **+443030805247**

✉ **Gweithio o adre /**

Working from home

📧 sharon.laban@bbc.co.uk

BBC Cymru Wales

Annwyl gyfaill

Dyddiaduron 2022 Y Lolfa

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2022 Y Lolfa. Os ydych am ddiweddarau neu ddileu gwybodaeth am Wilia mae croeso i chi wneud hynny yma neu drwy e-bostio sonia@yloffa.com

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5 ac A4. Manylion llawn i ddi-lyd.

Mae'r Lolfa yn cynnig gwasanaeth argraffu a dylunio llawn. Os ydych am dderbyn pris neu gyngor am unrhyw waith argraffu mae croeso i chi gysylltu â Paul: paul@yloffa.com 01970 831901.

Pob hwyl
Sonia Hughes
sonia@yloffa.com
www.yloffa.com

Gŵyl Lân Llandeilo 2021



Eleni mae Llandeilo Litfest yn cael ei gynnal ar-lein ar y 24ain a'r 25ain o Ebrill, mae gennym ni ddetholiad gwych o awduron, gyda rhywbeth at ddant pawb yn Saesneg a Chymraeg. Yn anffodus bu'n rhaid i ni ganslo'r digwyddiad y llynedd felly rydyn ni wedi dod yn ôl gydag arlwy arbennig, rydyn ni'n gobeithio y gallwch chi ymuno â ni

Rhai o'r uchafbwyntiau
ddydd Sadwrn yw Carwyn Jones, cyn Brif Weinidog Cymru, sydd bellach yn Athro Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd yn trafod ei hunangofiant diweddar a'i fywyd i mewn ac allan o'r chwyddwydr gyda Heddyr Gregory.

Enillodd Julie Ma wobwr best-seller 2020 Richard & Judy, gyda'i nofel deimladwy a doniol wedi'i gosod o amgylch tecawé Tsieineaidd. Ynh nghwmni Phillippa Davies bydd Julie'n siarad am deuluoedd hapus a chythryblus, am gael ei hysbrydoli gan fywyd go iawn, a bod yn un o bobl yr ymylon mewn tref fach Gymreig.

Bydd Heiddwen Tomos yn siarad am ei llyfrau "Esym" ac "Heb law Mam" a sut y symu-dodd o ysgrifennu i oedolion i ysgrifennu ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Yn ddiweddarach yn y dydd bydd Dylan Rhys Jones yn sgwrsio gyda'r awdur Steve Adams. Stori wir yw "Man in Black" am brofiad y cyn-gyfreithiwr amddiffyn troseddol Dylan Rhys Jones o amddiffyn llofrudd cyfresol y Rhyl, Peter Moore. Os ydych chi'n poeni am yr amgylchedd bydd Isabel Losada awdur "The Joyful Environmentalist" yn siarad â Steve Brown, yn ysbrydoledig ac yn ddoniol.

Ydydd Richard Owain Roberts, enillydd Gwobr Not the Booker 2020 gyda "Hello Friend I Missed You" yn sgwrsio am fywyd ac ysgrifennu gyda'i gyd-awdur Niall Griffiths. Nos Sadwrn daw digwyddiadau'r dydd i ben gyda stand -yp gan Carys Eleri, Myfanwy Alexander a Gwenno Dafydd.

Dechreuwn am 10.00am ddydd Sul gyda Tim Ap Hywel, yn siarad â Roy Davies am hunangofiant ei ddiweddar wraig, yr arlunydd Charlotte Leadbeater, am ei bywyd a'i gwaith rhyfeddol.

Am hanner dydd mae gennym David Nott, Meddyg Rhyfel, David Nott yn cymryd absenoldeb di-dâl o'i waith fel llawfeddyg i wirfoddoli yn rhai o barthau rhyfel mwyaf peryglus y byd. O Sarajevo i Syria mae wedi cyflawni gweithrediadau achub bywyd mewn amodau hynod heriol.

Ar nodyn hollol wahanol, ymunwch â Bernie Davies, guru busnes, mae hi'n unigryw ac mae hi ar genhadaeth i'ch helpu chi i gyflawni'r un peth a'ch busnes chi, byddwch chi'n fwrllwm o syniadau ar ddi-wedd ei gweithdy.

Ganol y prynhawn ymunwch â Sara Gethin, a anwyd yn Llanelli, yn siarad am ei nofel sydd ar fin ei chyhoeddi, "Emmet and Me"



Yn hwyr yn y prynhawn bydd dau awdur newydd Angela Johnson ac Angela Graham yn ymuno â'r cyhoeddwr lleol Seonaid Francis i drafod eu llyfrau newydd. "Arianwen", nofel ffraeth gynnes wedi'i gosod yng Ngorllewin Cymru ac "A City Burning", casgliad o straeon

wedi'u gosod yng Nghymru, Iwerddon a'r Eidal.

Mae'r academydd lleol Thomas Prosser yn trafod ei lyfr "What's in it for me" gyda chyn-Faer Abertawe Peter Black, a'r pod-castyr gwleidyddol Theo Davies-Lewis. Newid cyflymder yn llythrennol!

Yr uwch rhedwr Menna Evans, sydd wedi torri Record y Byd Guinness gan redeg hyd Seland Newydd yn gyflymach nag unrhyw fenyw mewn hanes, yn siarad â Cenwyn Edwards am y meddylfryd y mae'n ei gymryd.

Yn nes ymlaen mae'r awdur LGBTQ+ o Gymru, John Sam Jones, yn sgwrsio â'r awdur Americanaidd, Portiwgaleg ac Iddewig o fri Richard Zimler.

Ddydd Sadwrn mae diwrnod cyfan o ddigwyddiadau am ddim i blant ac oedolion ifanc gan gynnwys sesiynau gan Nicola Davies, Jessica Dunrod, Rebecca Roberts a Kat Ellis.

Mae yna lawer mwy yn digwydd, i weld y rhaglen gyfan a phrynu tocynnau ewch i'r wefan yn <https://llandeilolifest.org/>

Waw – am Wawr!

Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y Gwanwyn ar y ffordd - y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi ydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r cornel gyntaf welais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm dim ond byd natur all greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau am yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr coch. O fy mlaen i rwan roedd yr awyr yn fwy pinc ond welais i hefyd

rywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (vapour trail).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n sylu ar hyn er



Y wawr ar fae Abertawe

mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais fod i'n sylu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn sylu ac yn gweld y bwa yn ffurfio.

Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn i'n gallu gweld bod y coes chwith yn cyrraedd y ddaear rywle ar y traeth ond yn fwy o ddi-ddordeb i mi oedd ble oedd y coes dde yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y coes dde yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd cefn. Wel am lwc ynte! Mi fydda i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fydda i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fydda i'n gallu gwneud efo'r holl gyfoeth. A fydda i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau nes i blannu pum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys gorau yn y byd? Ia, dyna be wna i a bydd gwyliau yn sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn dweud. Rywbeth i edrych ymlaen amdani ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn sylu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

“Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith cerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth dwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio bod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl yna.

Pob hwyl i ti

Twm Teg a'r Tylwyth”

Wel, chwarae teg i'r Tylwyth Teg ynte!
Rob Evans



Y JAC COPOR AM FYND I FYNY'R CWM

Mae cynlluniau ar y gweill i fynd â'r Jac Copor, cwch cymunedol a lan-siwyd yn 2010, i fyny Cwm Tawe.

Un gobaith yw cael cyllid i greu man codi a gollwng ger Stadiwm y Liberty.

Nod arall wedyn yw ei gwneud hi'n bosibl i'r cwch fynd i fyny hyd at Glydach.

Dyw'r cwch ddim yn rhedeg yn ystod cyfnod clo Covid, ond pan ddaw'n bosibl, bydd y cwch ar gael ar gyfer teithiau i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac i grwpiau sydd

yn ei logi. Mae lle yn y cwch i 47 o deithwyr, ac mae'r triapiau i'r cyhoedd yn cymryd rhwng 1½ a 2 awr.

Mae modd cael teithiau addysgol yn y cwch, a chael hanes y diwydiant copor yn Abertawe.

Codwyd nifer o weithfeydd smeltio yn y cwm. Daeth y glo ar dramffyrdd a byddai llongau a gludai'r copor yn hwylio hyd at y weithfeydd. Roedd gan y teulu Vivian yn rhan fawr yn sefydlu'r

gweithfeydd, ac yn berchen ar waith copor yr Hafod, a phentref Vivianstown, sef yr Hafod heddiw. Y teulu Morris oedd yn berchen ar Waith y Cambrian. Erbyn 1750 roedd ardal Abertawe'n darparu hanner angheni-on copor Prydain. Daeth yn brif ganolfan gopor y byd.

Caewyd gwaith y Cambrian, ger afon Tawe, fel gwaith smeltio, ond ailagorodd yn grochendy yn 1764, a daeth y crochenwaith a wnaed yno'n enwog ac yn werthfawr. Mae casgliad da yn y Glynn Vivian. Sefydlwyd Crochendy Morgannwg gerllaw gan gyn-reolwr y Cambrian, gan gystadlu â'r Cambrian.

Mae dwr yr afon wedi gwella ers dyddiau Gwenallt, sy'n cofio dod allan o'r afon yn felyn ar ol ymdrochi.

DATHLU GWYL DEWI

Dathlwyd Gwyl Dewi mewn ffordd ychydig yn wahanol eleni! YM Mryn Tawe. Paratowyd Gwasanaeth Gwyl Dewi rhithiol gyda tua 25 o ddisgyblion yn cymryd rhan trwy ddarllen cerddi, cyflwyno ffeithiau am Dewi Sant a pherfformio sgetsh am hanes yr iaith. Dyma ddolen i'n Gwasanaeth Gwyl Dewi [https://](https://youtu.be/wBQraWVTj8Q)

youtu.be/wBQraWVTj8Q



SEREMONI GADEIRIO

Yn ol ein harfer cynhaliwyd Sere-
moni Gadeirio, ond o bell eleni!
Diolch i'r prif ddisgyblion am
gyflwyno, i Arwen am ganu'r delyn,
i Chloe a Daisy am gan y Cadeirio.
Dewi Prysor oedd ein beirniad
eleni. Longyfarchiadau mawr i
Owain James o fl.9 am ennill y
gadair, i Nataya Lewis o fl.10 am
ddod yn ail ac i Hanna-Non Cord-
ingley am ddod yn drydydd.
Longyfarchiadau hefyd i'r holl fud-
dugwyr yng nghystadlaethau bl.7-
13. Profiad rhyfedd iawn oedd
ffilmio Owain yn cael ei gadeirio ar
iard yr ysgol ac yna dangos y fideo
i weddill yr ysgol ar ddydd Gwyl
Dewi. Dyma ddolen i'n Seremoni
Gadeirio rithiol: <https://>

GWEFAN RHAG I RIENI

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg wedi
cychwyn gwefan i rieni, sy'n tynnu at ei
gilydd yr adnoddau ar-lein sydd ar gael i
ddisgyblion ysgolion Cymraeg.
Welsh4parents.cymru yw cyfeiriad gwe.
Mae ar y wefan hon lu o ddolenni i
wefannau eraill sy'n cynnig yr adnod-
dau.

TEYRNGED I JOHN HUGHES YN Y SENEDD

Cododd Mike Hedges MS deyrnged yn
y Senedd i John Hughes cyfansoddwr
yr emyn dôn Galon Lân.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn
Abertawe, rydym wedi bod yn dathlu
Calon Lân, gyda'r geiriau gan Daniel
James, sy'n fwy adnabyddus wrth ei
enw barddol Gwyrosydd. Er nad ydym
yn tanamcangyfrif pwysigrwydd geiriau'r
emyn, rhaid inni beidio ag anghofio
pwysigrwydd y dôn. Wrth wrando ar
Radio Wales ddechrau mis Chwefror,
clywais rywun yn America yn ceisio

cofio emyn o'u plentyndod. Nid oeddent
yn gallu cofio'r geiriau, ond gallent gofio'r
dôn, ac roedd hynny'n hawdd ei
hadnabod ar ôl cael eu hymian fel Calon
Lân.

Cafodd y dôn ei chreu gan John Hughes,
a oedd yn gyfansoddwr o Gymru
sy'n fwyaf adnabyddus am
Galon Lân, ond nid dyna'r unig
beth a wnaeth. Ysgrifennodd
nifer o alawon emynau eraill ar
gyfer cymanfa ganu yn ardal
Abertawe. Ysgrifennodd y dôn ar
gyfer Calon Lân oherwydd bod
Gwyrosydd wedi gofyn iddo, a
oedd yn ymwybodol o'i grefft fel
cyfansoddwr emyn donau.
Roedd yn dod o Sir Benfro yn
wreiddiol, ac mae'r aelwyd lle
cafodd ei eni yn dwyn plac coffa
amdano. Mae yna blac coffa
hefyd yn Nhrefoeth. Gweithiodd
ei yrfa gyfan yng ngwaith dur
Dyffryn yn Nhreforys, gan gychwyn fel
bachgen swyddfa, a gorffen fel rheolwr
marchnata. Teithiodd yn rhyngwladol
gyda'r cwmni a dysgodd chwe iaith iddo'i
hun ar wahân i'w Gymraeg brodorol.
Mae wedi ei gladdu yng nghapel
Caersalem yn Nhrefoeth, ac mae
ganddo wyres sy'n dal i fyw yn
Ynystawe. Rhywun sydd, er nad yw ei
enw yn adnabyddus ar unwaith, y mae ei
dôn.

PLAC I GOFIO YMGYRCHYDD

Pan fydd y cyfnod clo heibio, caiff plac ei ddadorchuddio yn Dynevor Place i gofio **Jessie Donaldson**, menyw o Abertawe, a fu'n



ymladd yn ddewr yn erbyn caethwasanaeth yn America ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Teithiodd Jessie Donaldson i Ohio yn yr 1850au i gynnal ty diogel i gaethweision, ac roedd mewn perygl o dderbyn dirwyon a dedfrydau carchar am gynnig llety a diogelwch i gaethweision wrth iddynt ddiant o



daleithiau'r de i ogledd America. Ganwyd Jessie yn 1799, a bu'n byw mewn ty teras trillawr yn Dynevor Place.

Mae'r plac wedi ei osod ar Adeilad Dinefwr Prifysgol Cymru y Drindod a Dewi Sant, gerllaw ei hen gartref.

LLuniau: CYngor Dinas a Sir Abertawe

Y BAR SIOCLED

Mae sawl barn wedi'i mynegi am y bont newydd ar draws Heol Ystymllwynarth ger y Ganolfan Hamdden. Bar Crunchie yw un, Mae eraill yn ei gweld fel pancosen, neu baste Cernyw.

Cafodd celfyddyd y bont ei chynllunio gan **Marc Rees**, sy'n artist perfformio, a gafodd ei addysg yn Ysgol Ystalyfera.

Meddai Marc bod y bont 'ar ffurf alarch wedi'i phlygu' a chafodd ei ysbrydoliaeth gan



batrymau origami Siapan.

Meddai Marc, 'mae'r alarch mewn diwylliant Celtaidd yn symbol o ymfudo, symud ymlaen a newid'

Bydd y bont yn cysylltu'r dref â ganolfan berfformio newydd.

Caiff ei goleuo yn y nos. LLun Marc: Wales Online

PRYNWCH YN SIOP TY TAWE

Mae'r siop yn gobeithio agor ddydd

Mercher, Ebrill 14, ond cyn hynny, mae 2 gynnig ar Y Gynganedd Heddiw ar hyn o bryd sef a) gostyngiad o 10% os yn prynu **dros y ffôn ac yn dod i'r siop i gasglu copi** neu b) dim tâl post os yn archebu dros y ffôn ac ishe copi wedi postio. Mae pob copi wedi cael ei arwyddo gan Aneurin Karadog.

Mae cardiau Pasg ar werth a chardiau am bob achlysur arall.



Llyfr y mis Y Cyngor Llyfrau i oedolion yw **Rhwng Dau Olau** gan Ifor ap Glyn ac ar gael yn y siop, pris £7.90 ac i blant llyfr **Cyfes Cyw: Bolgi a'r Wyn Bach** pris £3.95.

Mae'r chwe llyfr Cymraeg sydd wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Tir na n-Og 2021 ar werth nawr yn y siop.

Yn y categori cynradd mae: - **Ble Mae Boc** – Ar Goll yn y Chwedlau gan Huw Aaron

Mae'r Cyfan i Ti gan Luned Aaron Sw Sara Mai gan Casia William

Parhad ar y dudalen nesaf >>



Cystadleuaeth Siop Ty Tawe

#CaruDarllen


Tir na n-Og 2021
GWOBRAU AWARDS

Gwnewch sylw isod yn dweud pa lyfr hoffech chi ennill a pham Hoffwn i ennill

achos

neu, dewch â'ch atebion i mewn i'r siop

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL OF WALES




SIOP TY TAWE
Parhad o dudalen 10
Yn y categori uwchradd mae:-
Y Castell Siwgr gan Angharad Tomos
Llechi gan Manon Steffan Ros
#helynt gan Rebecca Roberts
Cafodd y rhestr fer ei datgelu ar y rhaglen Heno ar S4C nos Iau, 11 Mawrth, a bydd y rhaglen yn cyhoeddi enwau'r enillwyr nos Iau, 20 Mai 2021. Byddwn yn rhedeg cystadleuaeth hefyd. Gweler y poster Cystadleuaeth Tir na n-Og uchod.

Mae yn y siop ddetholiad mawr o gardiau Pasg—ffoniwch y siop i archebu cardiau neu lyfrau: 01792 456856. Gallwch eu codi yn y siop.

Ar hyn o bryd mae'r siop ar agor i dderbyn archebion ddydd Mercher, Iau a Gwener, o 10 tan 5.



Os bydd rheolau'r Llywodraeth yn caniatáu, mae'r siop yn gobeithio agor dydd Mawrth i dydd Gwener, 10—5 ac yna ddydd Sadwrn, 10 tan 2 y prynhawn.



Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif Elusen: 514082



Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe,
gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl: Enw/au cyntaf:

Cyfenw: Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Tŷ Tawe Hoffwn dderbyn e-gylchlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe

Gellir dad-danysgrifo o'r uchod ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Gymdeithas
neu'r Fenter.

Mathau o Gefnogaeth	
(Yn ôl eich dewis – rydym yn ddiolchgar am bob cyfraniad)	
1	£2 y mis / £24 y fl.
2	£5 y mis / £60 y fl.
3	£10 y mis / £120 y fl.
4	£20 y mis / £240 y fl.
5	Teulu: Un o'r rhain + 50%

**I DDOD YN GEFNOGWR, TREFNWCH BOD TALIAD YN MYND TRWY EICH BANC.
DYLAI FOD MODD TREFNU ARCHEB BANC AR-LEIN – DIOLCH I CHI.**

Trefnwch archeb banc i:

Cymdeithas Tŷ Tawe

Rhif cyfrif: **11617168**

Cod didoli'r banc **40-43-31** (HSBC, 10 Stryd Portland, Abertawe SA1 3DF)

Wedi i chi wneud hyn, anfonwch y ffurflen hon at

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe,

Rhian Jones / Catrin Rowlands,

Llecyn Llawn, 4 Stryd Lewis, St Thomas

Abertawe SA1 8BP.

Rwyf wedi trefnu rhoi £..... y mis / y flwyddyn i Gymdeithas Tŷ Tawe.

Trwy lenwi'r rhan hon, caiff Tŷ Tawe 25c ychwanegol am bob £1 a gyfrannwch.

Datganiad Cymorth Rhodd Enw'r Elusen: Cymdeithas Tŷ Tawe, Elusen Gofrestredig Rhif 514082

Ticiwch: Rwyf am i'm cyfraniad o £..... fod yn Gymorth Rhodd

Dymunaf drin fy nghyfraniad i Gymdeithas Tŷ Tawe ac unrhyw rodd ariannol a wnaif yn y dyfodol i Gymdeithas Tŷ Tawe fel taliad Cymorth Rhodd. Rwy'n talu treth incwm y D.U. ac rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth os byddaf yn talu llai o Dreth Incwm a/neu dreth enillion cyfalaf y DU yn y flwyddyn dreth gyfredol na'r swm o Rodd Cymorth sy'n cael ei hawlio ar fy holl gyfraniadau. Deallaf y bydd yr elusen yn adhawlio 25c am bob £1 rwy'n ei rhoi o hyn ymlaen. Rhoddaf wybod i Gymdeithas Tŷ Tawe os bydd fy statws treth a/neu enillion cyfalaf neu fy nghyfeiriad yn newid yn y dyfodol neu os wyf am ganslo'r cyfarwyddyd hwn.

TEITL: ENW/AU CYNTAF: CYFENW:

CYFEIRIAD

..... COD POST:

Swm a gyfrennir yn y flwyddyn dreth 2020-2021: £

Llofnod: Dyddiad: